

Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwys i'r Ofalaeth sydd yn yr ysbty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl. Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Hydref 1: Noson Cyngor Ysgolion Sul a'r Panel Diogelwch yn Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Nos Iau, Hydref 2: Cyfarfod Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 5: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn oedfa Fedydd. **Sylwch ar yr amser os gwelwch yn dda – 10.00 o'r gloch.** Gwasanaethir yn yr oedfa hon a'r oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Nos Fercher, Hydref 1: Noson Cyngor Ysgolion Sul a'r Panel Diogelwch yn Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Nos Iau, Hydref 2: Cyfarfod Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 5: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 5: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Hydref 3: Cyfarfod Gweddï yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 28

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Hydref 5

10.00 a.m. - Y Gweinidog
Oedfa Fedydd
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 12

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Hydref 19

10.00 a.m. - Oedfa Ddiolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 5

10.00 a.m. a 5.00 p.m. -
Y Parchg Huw Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Hydref 12

10.00 a.m. - Oedfa Ddiolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Hydref 19

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
5.00 p.m. - Mr Glyn Owen



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 606 – Dydd Sul, 28 Medi, 2014

Eto fyth!

Tair blynedd ar ddeg. Dyna faint sydd ers i mi ddechrau cyhoeddi *Gronyn* bob Sul. Ar un ystyr, dydi hynny ddim yn hir iawn er bod cymaint o bethau wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Ond tristwch pethau yw ei fod yn hen ddigon o amser i'r Llywodraeth yn San Steffan benderfynu mynd i ryfel dair gwaith. Hydref 2001, Affganistan; Mawrth 2003, Irac; a rŵan, Medi 2014, Y Wladwriaeth Islamaidd (IS, neu ISIS neu ISIL). Galwyd aelodau seneddol i ddadl arbennig yn Nhŷ'r Cyffredin echdoe, ac fe benderfynwyd y bydd awyrennau Prydeinig yn ymuno â'r cyrch bomio yn erbyn y Wladwriaeth Islamaidd yn Irac. Ac felly, unwaith eto, mae lluoedd y gwledydd hyn yn rhyfela yn y Dwyrain Canol.

Anghofier yr Alban; mae rhyfel yn galw. Anghofier y wasgfa ariannol a'r angen am arbedion; mae rhyfel yn galw. Anghofier y dinistr a achoswyd gan flynyddoedd o ryfela yn y Dwyrain Canol; mae rhyfel arall yn galw. Ac o fewn diwrnod i'r bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin roedd awyrennau Prydeinig yn hedfan dros dir Irac.

Daw'r penderfyniad hwn â phryder ac ansicrwydd ac ansefydlogrwydd i'w ganlyn. Ac mae'n debyg y bydd perygl ychwanegol i bobl y gwledydd hyn. Mae'r Llywodraeth hon eto'n gwrthod ystyried y posibilrwydd y gallem ni fod dan fygythiad o du'r 'terfysgwyr' o ganlyniad uniongyrchol i'r ffordd yr ydym yn cyfrannu at y dinistr a'r lladd mewn rhannau eraill o'r byd.

Yr union ddiwrnod y cyhoeddodd David Cameron ei fwriad i ymuno â'r bomio, roedd yn datgan ei falchder o allu cefnogi ymgyrch *Help For Heroes* un papur newydd i helpu'r milwyr a anafwyd ar faes y gad. Oni fyddai'n beth od iawn iddo ddeud yn wahanol ac yntau ar gychwyn anturiaeth sydd bron yn sicr o arwain at anafu a lladd mwy o filwyr Prydeinig, beth bynnag a ddywedir ar hyn o bryd am beidio â bomio dros dir Syria neu anfon milwyr troed i'r un o'r dwy wlad.

£3 biliwn o bunnoedd; ymgyrch a fydd (yn ôl y darogan) yn para o leiaf ddwy neu dair blynedd; posibilrwydd cryf y bydd rhaid anfon milwyr troed yn hwyr neu hwyrach; a phwy a wŷr faint o bobl fydd wedi eu lladd tra bydd hyn oll yn digwydd. A'r gwir distwch yw methiant llwyr i chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael ag anghyfiawnderau ac anghydfod trwy wrando a thrafod gyda gwir ddymuniad i sicrhau cyfiawnder a thegwch a heddwch. Ond cyhyd â bod amharodrwydd i gydnabod y gallai'r hyn a wnaed gennym ni cyn hyn fod yn rhan fawr o'r broblem, pa obaith sydd am ymateb doeth a synhwyrol?

Un peth sy'n dangos ymfydrwydd y rhyfela hwn yw'r cymhlethdod sy'n golygu bod y 'gelyn' yn newid o hyd. Mor aml y mae gelynion ddoe yn troi yn gyfeillion heddiw. Parhad yw hyn o 'Ryfel yn erbyn terfysgaeth' Blair a Bush, wrth gwrs, ond tristwch pethau yw nad oes gobaith ennill hwnnw trwy na rhyfel na therfysgaeth.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Y Parchg Dafydd Ll Hughes, Caernarfon. Croeso cynnes iddo atom unwaith eto, a diolch yn fawr iawn am ei wasanaeth.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch heno gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Rhowch wybod i ni os gwyddoch am aelodau o eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr asbyty os gwelwch yn dda.

Cyngor Ysgolion Sul a'r Panel Diogelwch

Bydd Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd â'r Panel Diogelwch Cydenwadol i gyflwyno'r gwerslyfrau newydd sydd i'w defnyddio yn yr Ysgol Sul eleni ac egluro'r gofynion newydd o ran diogelwch plant ac oedolion bregus i'r eglwysi.

Ceir cyflwyniad 15 munud gan y Parchg Aled Davies i'r gyfres newydd o werslyfrau ac adnoddau perthnasol eraill ar gyfer Ysgolion Sul a chlybiau plant.

Ac yna ceir cyflwyniad 45 munud gan Mrs Julie Edwards o'r Panel Diogelwch Cydenwadol i'r *Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus* a gyhoeddwyd eleni.

Mae dewis o ddyddiadau. Yr agosaf atom ni yw'r un yng Nghaernarfon **nos Fercher yr wythnos hon**, ond nodir y lleoliadau eraill hefyd rhag ofn bod y dyddiadau hynny'n fwy hwylus.

Nos Lun, Medi 29:

Capel Lon y Felin, Llangefni

Nos Fawrth, Medi 30:

Coleg y Bala, Y Bala

Nos Fercher, Hydref 1

Capel Salem, Caernarfon

Bydd y cyflwyniad cyntaf am 7.30 o'r gloch, a bydd y cyfarfod yn gorffen am 9.00 o'r gloch.

Mae gwahoddiad arbennig i athrawon Ysgol Sul a swyddogion eglwysi i fynd i'r cyfarfodydd hyn.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn nhŷ Andrew Settattree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener nesaf, Hydref 3.

Pwyllgor Gofalaeth

Nos Iau, Hydref 2

7.00 p.m.

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch, am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Hydref 2 i drefnu ar gyfer y drefn newydd o fis Ionawr ymlaen pan fydd yr Ofalaeth yn cael ei hymestyn i gynnwys eglwysi Bethlehem, Talybont a Charnel, Llanllechid.

Gobeithio bydd pob eglwys yn cael ei chynrychioli yn y pwyllgor hwn.

Rhowch wybod os na fydd modd i chi fod yno os gwelwch yn dda.

Mae croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos.

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun diwethaf a chroesawyd Annette Bryn Parri, Cynefin atom. Cawsom noson o sgwrs a chân ganddi wrth iddi sôn am rai o'r caneuon sy'n gyfarwydd i ni ers cyfnod y 60au (a chyn hynny yn achos un neu ddwy ohonynt). Wedi i Annette ddweud gair neu ddau am y caneuon cawsom eu clywed yn cael eu canu ganddi ar y piano. Diolchwyd iddi ar y diwedd gan Mr John Llywelyn Williams.

Mae tymor amrywiol o gyfarfodydd wedi ei drefnu ac estynnwn groeso cynnes i bwy bynnag ohonoch sydd ag awydd dod atom o'r newydd.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener ac roedd yn braf iawn wgeid criw da yno unwaith eto. Diolch yn fawr i Gwenno, Dafydd ac Andrew am eu holl waith paratoi ymlaen llaw ac am arwain y cyfarfod unwaith eto.

Y Goleuad

Fe ddsbarthwyd copïau rhad ac am ddim o'r *Goleuad* yr wythnos diwethaf er mwyn tynnu sylw at y papur. Gwnaed hyn gan y cyhoeddwr y llynedd hefyd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau ei ddarllen os gwelsoch ef. A chofiwch mai bwriad cynnig copi am ddim oedd ennyn awydd mewn rhai i brynu copi bob wythnos. Os ydych eis-iau rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Gweinidog. Fel y nodwyd yn y rhifyn a rannwyd am ddim, nid papur ar gyfer gweinidogion neu flaenoriaid yn unig yw hwn ond holl aelodau'r eglwys.

gronyn.org

Cofiwch bod Gronyn i'w weld unrhyw bryd ar wefan yr Ofalaeth.
www.gronyn.org
neu gronyn.wordpress.com

Mae'n dda gweld mwy o ddefnydd o'r wefan yn ddiweddar.

Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch, ddydd Sul, Hydref 19. Byddai'n braf iawn gweld aelodau'r ddwy eglwys yn ymuno yn yr oedfa hon.

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch, ddydd Sul, Hydref 12. Sylwch bod hwn yn newid i'r drefn arferol. Pythefnos i heddiw, felly, byddwn yn cychwyn yr oedfa am 10.30 o'r gloch.